Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gwynfryn
# Heol Y Meinciau
# Pontiets
# Llanelli
# Caerfyrddin
# SA15 5SN

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/03/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gwynfryn ym mhentref Pontiets, yng Nghwm Gwendraeth, Sir Gaerfyrddin. Mae 64 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Addysgir y disgyblion mewn tri dosbarth o oed cymysg. Mae'r ysgol yn gweithredu fel ysgol ffederal mewn cydweithrediad agos â dwy ysgol leol ac yn rhannu arbenigedd staff ac adnoddau.

Mae 31% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru. Daw 32% o'r disgyblion o gartrefi ble y siaredir Cymraeg fel iaith yr aelwyd. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu ac anelir at sicrhau bod pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae gan oddeutu 34% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn sylweddol uwch na'r canran cenedlaethol. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gwynfryn yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,736 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,977 a'r lleiafswm yw £3,325. Mae Ysgol Gwynfryn yn y 44fed safle o'r 95 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn Ionawr 2011 a chafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Mawrth, 2012.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu hamser yn yr ysgol
- bod llawer o ddisgyblion yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd yn effeithiol ac yn eu cymhwyso'n fedrus i sefyllfaoedd newydd
- bod pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol
- ymddygiad pob un o'r disgyblion yn dda yn ystod gwersi ac ar fuarth yr ysgol
- bod yr ysgol yn cynllunio a darparu profiadau dysgu symbylus sy'n cwrdd ag anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion yn llwyddiannus
- bod yr ysgol yn gymuned ofalgar lle mae blaenoriaeth amlwg ar les disgyblion

Fodd bynnag:

- nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn ystod eu cyfnod yn y Cyfnod Sylfaen
- nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent yn y mwyafrif o wersi
- mewn tua hanner y gwersi lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw'r tasgau'n herio disgyblion o allu uwch ac mae cyflymder y gwersi yn araf
- nid yw'r safle allanol wedi ei ddatblygu'n ddigonol ar gyfer anghenion dysgu'r Cyfnod Sylfaen

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n ffocysu ar les ac ar godi safonau disgyblion;
- bod yr ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol;
- bod yr ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid sy'n cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad a lles disgyblion; a
- bod y pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol.

Fodd bynnag:

- nid yw'r ddogfen hunanarfarnu'n ddigon arfarnol mewn perthynas ag effeithiolrwydd systemau a strategaethau'r ysgol;
- mae nifer sylweddol o flaenoriaethau yn y cynllun datblygu ond ychydig yn unig sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chodi safonau, ac yn cynnwys targedau mesuradwy; a
- mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Argymhellion

A1 Codi deilliannau disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen

A2 Sicrhau gwelliant pellach ym medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion ar draws yr ysgol

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i herio ac ymestyn y disgyblion mwy abl

A4 Sicrhau gwell cysondeb yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol

A5 Datblygu'r ardal allanol i ddarparu cyfleoedd dysgu ysgogol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen

A6 Sicrhau bod targedau'r cynllun datblygu ysgol yn benodol, yn fesuradwy ac yn canolbwyntio ar godi safonau

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau sylfaenol y rhan fwyaf o ddisgyblion wrth ddechrau eu cyfnod yn yr ysgol islaw'r disgwyl ymhob deilliant. Serch hynny, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar y disgyblion yn datblygu'n fuan. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg gan ddefnyddio geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae llawer yn ymateb yn hyderus i gyfarwyddiadau'r athrawon. Mae hyn yn datblygu ymhellach yng nghyfnod allweddol 2, gyda llawer yn siarad yn hyderus ac yn effeithiol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol yn y ddwy iaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd yn effeithiol ac yn eu cymhwyso'n fedrus mewn sefyllfaoedd newydd. Mae disgyblion o bob oed yn cofio dysgu blaenorol yn gyflym ac yn wynebu heriau newydd yn hyderus. Mae medrau meddwl rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt fynd i'r afael â thasgau ymchwiliol ac ymarferol, er enghraifft wrth gynnal arolwg yn nhref Llanelli.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu strategaethau darllen ffonig addas ac yn eu defnyddio nhw wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae lleiafrif yn datblygu rhuglder a chywirdeb wrth ddarllen. Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n trafod llyfrau yn hyderus. Serch hynny, mae mwyafrif y disgyblion yn ailadrodd storïau yn gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn gywir, gyda dealltwriaeth addas o'r tesun. Maent yn trafod y prif ddigwyddiadau a chymeriadau eu llyfrau yn briodol. Serch hynny, dim ond ychydig o'r disgyblion hŷn sy'n ymhelaethu wrth drafod eu hoff lyfrau. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth addas o uwch fedrau darllen. Gallant sganio'r testun yn fedrus a thynnu gwybodaeth briodol yn hyderus.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cynhyrchu darnau byr o ysgrifennu annibynnol o safon briodol; er enghraifft, wrth ailysgrifennu stori Blodeuwedd. Mae'r disgyblion hŷn yn dechrau defnyddio prif lythrennau ac atalnodau llawn yn gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion y cynhyrchu darnau ysgrifenedig priodol ar gyfer ystod o bwrpasau ar draws y cwricwlwm. Serch hynny, ychydig iawn o'r disgyblion mwyaf galluog sy'n dechrau ysgrifennu'n greadigol ac yn defnyddio amrywiaeth briodol o eirfa i gynnal diddordeb y darllenydd. Er enghraifft, creu posteri i annog pobl i ddatblygu eu busnesau'n lleol. Mae ychydig o ddisgyblion yn dechrau cynllunio ac ailddrafftio eu gwaith yn effeithiol. Mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn rhwystro gallu mwyafrif o ddisgyblion i ysgrifennu'n estynedig ac i gyflawni cystal ag y gallent. Mae ffocws diweddar yr ysgol gyfan ar ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni.

Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau rhifedd penodol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adnabod, trefnu a defnyddio rhif yn briodol yn eu gweithgareddau ar draws y meysydd dysgu; er enghraifft, wrth gasglu manylion am hoff fwydydd sinema'r dosbarth. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn medru defnyddio cyfesurynnau yn hyderus i ddod o hyd i long môr-ladron. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o werth lle. Maent yn cyflwyno gwaith mathemateg ar lefel briodol yn unol â'u hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, maent yn ysgrifennu a thrin rhifau hyd at chwe digid yn hyderus ac yn defnyddio nifer o strategaethau pen yn hyderus wrth luosi a rhannu rhifau cyfain a degolion. Wrth iddynt ymchwilio i ba ddefnyddiau sydd orau ar gyfer gwrthseinio ystafell, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio offer ac unedau mesur yn bwrpasol drwy gofnodi eu canlyniadau yn fanwl mewn tablau a graffiau. Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Dros amser mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi tanberfformio o gymharu â'u cyfoedion. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae'r tuedd wedi newid ac mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn cymharu'n fwy ffafriol â rhai disgyblion eraill. Yn gyffredinol, nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ar lefel sy'n cyfateb i'w gallu. Serch hynny, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent yn y mwyafrif o wersi.

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychain o ddisgyblion mewn grŵp blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

O gymharu ag ysgolion eraill tebyg, mae perfformiad yr ysgol yn y Cyfnod Sylfaen dros y tair blynedd ddiwethaf wedi ei gosod yn y 25% isaf mewn llythrennedd ac mewn datblygiad mathemategol.

Yn ystod yr un cyfnod, mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd ar y deilliant uwch mewn llythrennedd wedi gostwng, gan symud yr ysgol o'r 50% uwch i 25% isaf. Mewn datblygiad mathemategol, mae'r ysgol wedi aros yn gyson yn y 25% isaf.

O gymharu ag ysgolion eraill tebyg, mae perfformiad disgyblion cyfnod allweddol 2 ar lefel 4 yn ystod tair o'r pedair blynedd diwethaf wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 50% uwch. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd perfformiad yr ysgol yn y 25% uchaf yn Saesneg a Mathemateg. Roedd perfformiad gwyddoniaeth yn dangos gwelliant a symudodd y pwnc o'r 25% isaf i'r 50% uwch. Gosodwyd perfformiad yr ysgol yn y Gymraeg yn yr 50% is o ysgolion tebyg.

Mae perfformiad disgyblion ar y lefelau uwch yn y pedwar pwnc craidd wedi amrywio'n sylweddol dros gyfnod o bedair blynedd. Yn 2014, mae perfformiad mewn Saesneg wedi gwella ac wedi symud o'r 25% isaf i'r 50% uwch. Mae perfformiad Cymraeg wedi aros yn yr 50% is a pherfformiad mathemateg a gwyddoniaeth wedi aros yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

**Lles: Da**

Mae pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod y gallant droi at unrhyw aelod o staff am gymorth pan fo angen. Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda yn ystod gwersi ac ar fuarth yr ysgol, ac maent yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion ac oedolion fel ei gilydd. Mae mwyafrif y disgyblion yn canolbwyntio'n dda iawn yn ystod sesiynau dysgu, ac yn ymroi'n gadarnhaol wrth eu tasgau. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwybod am bwysigrwydd ymarfer corff a bwyta ac yfed yn ddoeth er mwyn cadw'n iach.

Mae mwyafrif y disgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd priodol a gânt i gyfrannu eu syniadau i'r cynllunio cwricwlaidd ac maent yn teimlo perchnogaeth drosto. Mae llawer o ddisgyblion wedi dechrau ar y broses o werthuso eu dysgu eu hunain a'u cyfoedion yn effeithiol. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos eu bod yn gallu gweithio'n annibynnol wrth ddatrys problemau a chydweithio'n effeithiol â'i gilydd.

Mae'r cyngor ysgol yn weithgar ac mae'r aelodau'n llwyddo i ddylanwadu'n effeithiol ar benderfyniadau a wneir yn yr ysgol. Enghreifftiau o hyn yw paentio wal y neuadd er mwyn harddu'r ystafell, cyfrannu at bolisi atal bwlio'r ysgol a chyfweld ag aelod newydd o staff fel rhan o'r broses benodi.

Mae pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gwasanaethau yn y capel lleol ac yn canu carolau ar y fferm gyfagos. Mae'r gweithgareddau hyn yn cryfhau eu cyfranogiad yn y gymuned ac yn cyfrannu'n werthfawr tuag at eu datblygiad personol.

Mae presenoldeb yr ysgol wedi gwella ac mae cyfraddau'r ysgol bellach yn uwch na'r canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae prydlondeb disgyblion yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio a darparu profiadau dysgu symbylus sy'n bodloni anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae themâu cyffrous yn dal dychymyg y disgyblion yn dda ac yn sicrhau eu bod yn datblygu ystod o fedrau ac agweddau ar les yn briodol. Mae cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen wedi'i seilio'n gadarn ar y chwe maes dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen bob amser yn sicrhau cyfleoedd cyson i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn effeithiol.

Mae'r ysgol wedi ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn ei chynlluniau tymhorol a dyddiol yn llwyddiannus. Mae'r ystod eang o weithgareddau trawsgwricwlaidd sy'n cael eu darparu yn y tri dosbarth yn sicrhau bod cyfleoedd da i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn gyson. Mae profiadau allgyrsiol ac ystod eang o ymweliadau maes, fel ymweliad â chastell Cydweli, yn cyfoethogi gwybodaeth a medrau cymdeithasol y disgyblion ymhellach yn effeithiol.

Mae’r cynllunio ar gyfer yr iaith Gymraeg a’r dimensiwn Cymreig yn datblygu’n briodol trwy’r ysgol. Mae’r ysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu drwy ymweliadau â lleoedd sy’n cysylltu’n effeithiol â gwaith trawsgwricwlaidd y disgyblion; er enghraifft, eu hymweliad â’r amgueddfa rhyfel yn Abertawe a’u hastudiaeth o dref Llanelli.

Mae aelodau’r cyngor ysgol ac eco yn gweithredu’n effeithiol, ac yn cywain barn eu cyd-ddisgyblion yn rheolaidd am faterion sy’n bwysig iddyn nhw. Mae’r cwricwlwm ac arferion ailgylchu’r ysgol yn cyfrannu’n dda at ddealltwriaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a’u cyfrifoldeb fel dinasyddion byd-eang.

## Addysgu: Digonol

At ei gilydd, mae ansawdd ac ystod y dulliau addysgu a arsylwyd yn dda mewn hanner o’r gwersi ac yn ddigonol yn y gweddill.

Lle mae’r addysgu’n dda, mae gan wersi amcanion dysgu clir. Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol ac yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael eu cymell yn effeithiol. Yn y gwersi lle mae’r addysgu’n llai effeithiol, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatrys problemau nac i fod yn gyfrifol am agweddau ar eu dysgu eu hunain. Mae gwendidau yn y ffordd y mae athrawon yn defnyddio cwestiynau i hyrwyddo trafodaeth a dadl ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn colli diddordeb yn eu dysgu.

Mae’r athrawon yn rhoi adborth llafar priodol yn ystod gwersi. Mae sylwadau ysgrifenedig llawer o’r athrawon yn cyfeirio’n uniongyrchol at y meini prawf llwyddiant ac yn gosod y camau nesaf i’w cymryd er mwyn gwella ansawdd eu gwaith. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymateb i’r sylwadau. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn gallu trafod eu targedau’n syml, a’r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae’r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, nid yw’r wybodaeth yn cael ei defnyddio’n ddigon effeithiol i gynllunio’r camau nesaf yn y dysgu a rhoi gwybod i ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, ynghylch sut i wella eu gwaith.

Mae adroddiadau i rieni yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am ddatblygiad a chynnydd eu plant ac yn nodi targedau clir ar gyfer gwella.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae blaenoriaeth amlwg ar les ei disgyblion, gyda phob un yn dangos parch a gofal am ei gilydd. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol a rhoddir cyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo datblygiad moesol. Ceir cyfleoedd effeithiol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol y disgyblion mewn cyfnodau addoli ar y cyd, lle y cânt gyfleoedd i fyfyrio ac i ystyried gwerthoedd pwysig fel hunan-barch. Mae’r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae prosesau effeithiol ar waith yn yr ysgol i hybu gwerthoedd ac i feithrin ymddygiad da, er enghraifft pwyntiau clod electroneg. Mae gweithdrefnau priodol yn ar waith ar gyfer annog presenoldeb da, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau presenoldeb yr ysgol.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer adnabod a chefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Trwy ymyrraeth gynnar a chynllunio gofalus, mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth dda i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u gwaith. Mae hyn yn galluogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd da ac i ymdopi'n llwyddiannus â gofynion y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau arbenigol er mwyn cefnogi lles a dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Maent hefyd yn cefnogi rhieni'n briodol pan fo angen, er budd y disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae ethos yr ysgol yn un cartrefol a chynhwysol. Mae'r ysgol yn hybu naws gofalgar a hapus, gan ddathlu amrywiaeth a gwerthfawrogi cyfraniad pob dysgwr. Prif nod yr ysgol yw rhoi'r profiadau gorau posibl i'r disgyblion i'w paratoi yn briodol ar gyfer y cam nesaf yn eu bywyd. Mae pob disgybl yn cael hawl gyfartal i holl ddarpariaeth yr ysgol. Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol yn llwyddiannus. Mae perthynas gefnogol a gofalgar iawn rhwng y disgyblion hŷn a'r disgyblion iau yn ystod amseroedd chwarae sy'n annog parch a gofal.

Mae'r staff yn gwneud defnydd priodol o'r gofod sydd ar gael ac mae'r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau yn addas ac yn adlewyrchu gweithgareddau ehangach yr ysgol yn bwrpasol. Mae cyflenwad amrywiol o adnoddau o ansawdd da yn gweddu'n briodol i anghenion y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cael ei chynnal yn bwrpasol ac mae'r adeilad yn addas ar gyfer nifer y disgyblion. Fodd bynnag, cyfyng yw'r defnydd a wneir o amgylchedd awyr agored i hyrwyddo dysgu'r disgyblion ar draws yr ysgol, ac nid yw'r safle allanol wedi ei ddatblygu'n briodol ar gyfer anghenion dysgu'r Cyfnod Sylfaen.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n ffocysu ar les ac ar godi safonau disgyblion. Mae hi'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda'r staff, y disgyblion, y rhieni a'r llywodraethwyr. Mae hi wedi sefydlu blaenoriaethau pwrpasol ar gyfer datblygiad, ac mae'n cydweithio'n frwd gyda'r pennaeth cynorthwyol a'r staff i symud yr ysgol ymlaen.

Yn dilyn cyfnod o aildrefnu a newid sylweddol yn y staffio, mae strategaethau ar waith sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion. Er nad yw'r holl strategaethau wedi cael amser i effeithio'n llawn, gwnaed cynnydd cadarnhaol mewn llawer o feysydd. Trwy roi sylw priodol i brosesau rheoli perfformiad, mae'r pennaeth a'r staff wedi cytuno ar amcanion perthnasol i godi safonau ar draws yr ysgol a hybu eu datblygiad proffesiynol. Mae pob aelod o staff yn cyflawni eu cyfrifoldebau newydd yn effeithiol.

Mae’r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae gweithredu dulliau asesu ar gyfer dysgu ynghyd â mabwysiadu’r strategaethau llythrennedd a rhifedd eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyflawniad disgyblion. Mae’r ysgol wedi mynd i’r afael â'r grant amddifadedd disgyblion yn effeithiol i wella lles a chyflawniad y disgyblion mwy bregus.

Mae’r corff llywodraethol wedi rhoi cefnogaeth dda wrth gynnig cyfeiriad strategol i’r ysgol mewn cyfnod o ansefydlogrwydd. Mae’r llywodraethwyr yn dechrau defnyddio’r data mewn ffordd ddadansoddol sydd wedi’u galluogi i adnabod yr angen i godi safonau. Maent yn wybodus am yr ysgol ac yn datblygu a chryfhau eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn llwyddiannus.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae’r adroddiad hunanarfarnu a luniwyd gan y pennaeth a’r staff yn rhoi darlun gonest o’r ysgol. Mae’n dod i farn glir ar safonau cyrhaeddiad disgyblion. Mae’n nodi’r mannau lle mae angen gwelliant o ran safonau ac agweddau ar addysgu ac asesu yn effeithiol. Serch hynny, nid yw yn ddigon arfarnol mewn perthynas ag effeithiolrwydd systemau a strategaethau’r ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau hunanarfarnu pwrpasol sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth eang a phriodol. Mae’r ysgol yn dadansoddi ystod briodol o ddata, monitro gwaith disgyblion, arsylwi gwersi ac yn cywain barn y disgyblion a’r rhieni yn gyson. Mae’r staff i gyd yn dechrau cyfrannu’n bwrpasol at bob agwedd ar y broses.

Mae cyswllt priodol rhwng deilliannau’r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol. Mae’r cynllun yn cynnwys amserlen weithredu addas, ynghyd â chyfrifoldebau staff a chostau. Mae nifer sylweddol o flaenoriaethau, ond ychydig yn unig sy’n ymwneud yn uniongyrchol â chodi safonau, ac yn cynnwys targedau mesuradwy. O ganlyniad, nid yw’n hawdd i arweinwyr a staff fonitro cynnydd yn eu herbyn yn effeithiol. Serch hynny, mae’r targed ar godi safonau ysgrifennu yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn gweithio’n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid sy’n cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad a lles disgyblion.

Mae perthynas gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a’r rhieni, sy’n gefnogol iawn i holl weithgareddau’r disgyblion. Nodwedd arbennig o’r bartneriaeth hon yw’r ‘fforwm rhieni’ ar noson agored y ‘Carped Coch’ sy’n gyfle i’r disgyblion rhannu eu llwyddiannau a’u profiadau gyda’i rhieni.

Mae cysylltiadau gwerthfawr â’r gymuned leol yn cael dylanwad buddiol ar brofiadau dysgu’r disgyblion. Enghreifftiau da o hyn yw’r cyswllt gyda fferm gyfagos, lle mae disgyblion yn tyfu llysiau i werthu ar stondin mewn marchnad leol, a’r ymweliadau â’r llyfrgell sydd wedi ennyn diddordeb newydd y disgyblion mewn llyfrau.

Mae’r ysgol gyfan yn elwa’n sylweddol o’r berthynas sy’n bodoli rhwng yr ysgol ar ddwy ysgol arall yn y ffederasiwn. Maent yn rhannu arfer dda ac yn cyd-gynllunio gan ychwanegu at y profiadau effeithiol a gaiff y disgyblion. Mae’r berthynas agos gyda’r Cylch Meithrin sydd ar safle’r ysgol yn sicrhau bod y disgyblion ifainc yn ymgartrefu’n fuan yn y dosbarth derbyn.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n agos ag ysgolion y clwstwr i gymedroli a chyd-safoni asesiadau parhaus. Yn fwy diweddar, mae’r ysgolion hon wedi gweithio ar brosiect iaith lwyddiannus i godi safonau ysgrifennu ac i gynllunio’n well ar gyfer ysgrifennu i wahanol bwrpasau.

Mae’r trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion hŷn i’r ysgol uwchradd yn effeithiol ac yn eu paratoi’n dda at y cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn rheoli adnoddau’r ysgol yn briodol. Maent yn trefnu staff addysgu a chynorthwyol yn bwrpasol i wneud y defnydd gorau o’u gwybodaeth a’u medrau.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu wedi’i threfnu’n dda, ac mae athrawon yn defnyddio’r amser hwn yn effeithiol. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer rheoli perfformiad yn ateb y gofynion statudol. Mae’r athrawon a’r staff cynorthwyol yn derbyn nifer o gyfleoedd priodol i ddatblygu ymhellach mewn meysydd penodol. Mae’r ysgol yn cydweithio’n dda ag ysgolion eraill o fewn y ffederasiwn ac o fewn y clwstwr i ddatblygu prosiectau i wella medrau llythrennedd. Enghraifft lwyddiannus o hyn yw’r prosiect ‘Geirio Gwych’.

Mae gan y pennaeth a'r llywodraethwyr drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli'r gyllideb. Mae cyswllt priodol rhwng y gwariant a chynlluniau'r ysgol ar gyfer gwelliant. Mae'r ysgol yn dechrau gwneud defnydd effeithiol o'r grant amddifadedd disgyblion i wella’r ddarpariaeth a’r deilliannau ar gyfer y disgyblion sy’n deilwng i dderbyn prydau ysgol am ddim.

O ystyried y deilliannau a’r defnydd o’r cyllid, mae’r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692019 - Ysgol Gwynfryn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 68 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 38.7 | |
| Grŵp PYD | 5 | (32%<PYD) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | * | 9 | 9 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | * | 44.4 | 55.6 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 9 | 9 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 44.4 | 55.6 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 22.2 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 9 | 9 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 55.6 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 0.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 9 | 9 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 77.8 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 22.2 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692019 - Ysgol Gwynfryn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 68 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 38.7 | |
| Grŵp PYD | 5 | (32%<PYD) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 10 | 10 | 7 | 10 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 70.0 | 70.0 | 71.4 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 10 | 7 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 70.0 | 80.0 | 71.4 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 10.0 | 30.0 | 14.3 | 30.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 10 | 7 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 60.0 | 70.0 | 57.1 | 60.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 20.0 | 0.0 | 10.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 10 | 7 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 70.0 | 80.0 | 71.4 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 10.0 | 40.0 | 0.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 10 | 7 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 70.0 | 70.0 | 71.4 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 40.0 | 0.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg cynradd (pob disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 34 | 34<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 34 | 34<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 34 | 34<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 34 | 33<br>97%<br>97% | 1<br>3%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 34 | 34<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 34 | 34<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 34 | 34<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 34 | 32<br>94%<br>98% | 2<br>6%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 33 | 30<br>91%<br>91% | 3<br>9%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 34 | 34<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 34 | 29<br>85%<br>77% | 5<br>15%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 34 | 33<br>97%<br>84% | 1<br>3%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 21 | 9 | 11 | 0 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 43% | 52% | 0% | 5% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 21 | 12 | 8 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 57% | 38% | 5% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 21 | 13 | 8 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 21 | 8 | 12 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 38% | 57% | 5% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 21 | 1 | 17 | 2 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 5% | 81% | 10% | 0% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 21 | 8 | 12 | 1 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 38% | 57% | 5% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 21 | 9 | 11 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 43% | 52% | 5% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 20 | 8 | 10 | 2 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 40% | 50% | 10% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 21 | 9 | 10 | 1 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 43% | 48% | 5% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 21 | 10 | 11 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 48% | 52% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 20 | 12 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 19 | 9 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 47% | 53% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 21 | 8 | 12 | 0 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 38% | 57% | 0% | 5% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 21 | 11 | 9 | 0 | 1 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 52% | 43% | 0% | 5% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 21 | 7 | 11 | 1 | 1 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 33% | 52% | 5% | 5% | | |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 21 | 7 | 13 | 1 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 33% | 62% | 5% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 17 | 5 | 8 | 0 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 29% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 21 | 11 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 52% | 48% | 0% | 0% | | |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 21 | 6 | 14 | 0 | 1 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 29% | 67% | 0% | 5% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Eleri Hurley | Arolygydd Cofnodol |
| Rhiannon Harris | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Rhian James Collins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhian Evans | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.